

Eglwys Carbon Sero

y Dyfodol

Yn ein byd rhanedig, mae'n rhaid i'r Eglwys ddangos ymrwymiad ac arweiniad er mwyn gostwng lledaeniad carbon, meddai Marcus Zipperlen, Swyddog Cynladwyaeth a Gofal Creadigaeth yr Esgobaeth



Nôl yn y naw degau ysgrifennodd un gwyddonydd gwleidyddol blaenllaw am 'End of History' wrth iddo ragweld y mwyafrif o wledydd yn symud at ddemocratiaeth ryddfrydig a chydweithrediad rhyngwladol. Y dyddiau hyn y mae teimlad mwy tywyll, gyda chynnydd llywodraethau awdurdodaidd, gwleidyddiaeth hunanol, a systemau naturiol ar fin syrthio gan fygwth diwedd mwy trychinebus hanes.

Y mae'n hunanfodlon i gredu y bydd pobl yn symud yn araf tuag at iawnder a haelioni; mae'n rhaid i'r nodau hyn gael eu anelu atynt yn bwrpasol. Yn yr un modd, byddai'n hunanfodlon i gredu bydd cenhedloedd a phobl yn symud yn araf tuag at gwell gofal am y greadigaeth oherwydd y mae hyn hefyd yn beth da y mae'n rhaid gweithio tuag ato gydag ymroddiad ag egni. A dyna beth mae'r Eglwys yn ei wneud fwyfwy, gyda llawer o sefydliadau seciwlar.

A wyddech chi mai Cyngor Sir Gaerfyrddin oedd un o'r cyngorau cyntaf ym Mhrydain i ddatgan argyfwng hinsawdd a chynllun i leihau lledaeniad nwyon tŷ gwydr i sero erbyn 2030? Cyhoeddodd Eglwys Loegr yr un nôd yn ddiweddar. Efallai y peth nad ydych yn ymwybodol ohono yw cynnig a fydd yn mynd o flaen Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru i wneud yr un peth, gan gyhoeddi argyfwng hinsawdd ac ymrwymo i amserlen bwysig i ddyfod yn Eglwys Carbon Sero.

Bydd bod yn carbon-sero yn golygu lleihau yr egni a ddefnyddiwn drwy wresogi a theithio, gan dderbyn yr egni a ddefnyddiwn oddi wrth ffynonellau adnewyddol, gan greu peth egni adnewyddol ein hunain, ac mwy na thebyg gefnogi plannu coed i lyncu'r lledaeniad carbon na allwn eu hosgoi. Bydd yn golygu ail drefnu ein blaenoriaethau a'n harferion, eto mewn cyfeiriadau yr ydym yn dechrau cyfarwyddo â nhw'n barod.

Y mae dyfod yn carbon-sero yn dasg argyfyngus i ni fel sefydliad, ac fe fydd yn rhaid i ni, gyda phob gostyngeddwridd, dderbyn cymorth a chyngor gan y byd seciwlar i gyrraedd. Ond nid yw bywyd carbon-sero yn ateb ynddo'i hun i ofalu am ein Daear. Y mae gan yr Eglwys cymaint i'w gynnig i'r byd yn ei thro, drwy ein dealltwriaeth o'r Ddaear fel rhodd, gyda ninnau'n ofalwyr nid yn berchnogion, a thrwy ein cydnabyddiaeth mai y cariad a roddodd yr Iesu i ni yw'r gwir egni tu ôl i bob creadigaeth, y nôd i'r greadigaeth symud tuag ato (Col.1:15-18) a'r ffordd i ni gyrraedd ato.

Gadewch i ni obeithio y bydd ein llais, drwy roi trefn ar ein tŷ ein hunain, yn cael ei glywed yn gliriach.